CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH AELOD ANWEITHREDOL O'R BWRDD

Partïon

(1) Grŵp Cynefin, (y Gymdeithas) gyda Rhif Cymdeithas Gofrestredig: L029 O Tŷ Silyn, y Sgwâr, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd, LL54 6LY

(2) [Enw] (enw yr aelod anweithredol) (**chi)** o [nodi'r cyfeiriad cartref]

1. Penodi

1.1 Bu i'ch penodiad fel **Aelod Bwrdd** gychwyn ar y [DYDDIAD PENODI I'R BWRDD]. Bydd eich penodiad yn parhau hyd [hyd dyddiad daw y tymor i ben] oni bai ei fod yn cael ei derfynu ynghynt neu yn cael ei ymestyn yn unol â'r Cyfansoddiad a'r Gytundeb hwn.

1.2 Bu i'ch penodiad fel **Cadeirydd Grŵp Cynefin** gychwyn ar y [DYDDIAD PENODI fel Cadeirydd]. Bydd eich penodiad yn parhau hyd [dyddiad daw y tymor i ben] oni bai ei fod yn cael ei derfynu ynghynt neu yn cael ei ymestyn yn unol â'r Cyfansoddiad a'r Gytundeb hwn

1.3 Mae eich penodiad yn ddarostyngedig i'r Cyfansoddiad a ni all unrhyw beth yn y Cytundeb yma gael ei gymryd i eithrio neu amrywio telerau'r Cyfansoddiad fel ac y maent yn gymwys i chi fel Aelod Bwrdd.

2. Ymrwymiad Amser

2.1 Drwy gytuno a'r Cytundeb hwn, rydych yn cadarnhau y gallwch ac y byddwch yn rhoi o'ch amser, sylw a sgiliau fel bo'n ofynnol ar gyfer ymgymryd â gofynion y rôl. Rhagwelwn ymrwymiad amser o isafswm o 20 diwrnod mewn cyfnod o 12 mis ar ôl i chi gwblhau eich anwythiad. Bydd hyn fel arfer yn cynnwys mynychu lleoliadau amrywiol o fewn ardal weithredu'r grŵp fel caiff ei bennu gan y Gymdeithas.

2.2 Bydd disgwyl i chi ymroi amser priodol i baratoi cyn bob cyfarfod a rhoi ystyriaeth i bob papur perthnasol.

2.3 Mae natur y rôl yn ei gwneud hi'n amhosib nodi'n union faint o ymrwymiad amser fydd ei angen. Efallai y bydd gofyn i chi ymroi mwy o amser i'r Gymdeithas o dro i dro, yn enwedig pan fydd yna weithgareddau cynyddol yn digwydd o fewn y Gymdeithas. Ar gyfnodau penodol, efallai y bydd rhaid cynnal cyfarfodydd Bwrdd, Pwyllgor neu gyfarfodydd cyffredinol a bydd hyn yn cael ei wneud yn unol â'r Cyfansoddiad.

2.4 Rhaid derbyn cytundeb y Bwrdd cyn i chi dderbyn unrhyw ymrwymiadau ychwanegol all effeithio yr amser gallwch ei ymroddi i'ch rôl fel aelod Bwrdd.

3. Rolau / cyfrifoldebau

3.1 Byddwch yn ymgymryd â dyletswyddau sydd yn cael eu hystyried yn arferol o fewn swydd Aelod Bwrdd gan gynnwys, heb gyfyngiad, y dyletswyddau hynny sydd wedi eu nodi yn y Cytundeb hwn ac yn unrhyw Ddisgrifiad Rôl neu ganllaw a roddir i chi o dro i dro. Mae disgwyl i chi weithio gyda'r Bwrdd a thrwy'r Bwrdd ac nid oes disgwyl i chi ymgymryd â dyletswyddau gweithredol neu ymgymryd â chyfrifoldebau gweithredol.

3.2 Mae disgwyl i chi ymddwyn er lles gorau'r Gymdeithas bob amser ac i gydymffurfio â gofynion y ddeddf CCBSA fel caiff ei newid o dro i dro.

3.3 Mae disgwyl i chi ymgymryd â'ch dyletswyddau gyda sgil a gofal rhesymol, sicrhau bod gweithgareddau'r Gymdeithas o fewn amcanion y Gymdeithas a'u bod yn cael eu cyflawni yn unol â'i bwerau a defnyddio eich pŵer chi ar gyfer yr hyn y mae wedi ei roi i chi.

3.4 Rydych yn cydnabod bod gennych yr un cyfrifoldebau cyfreithiol cyffredinol i'r Gymdeithas, fel pob Aelod Bwrdd arall.

3.5 Yn ychwanegol, bydd gofyn i chi fod yn aelod o un o Bwyllgorau'r Bwrdd (neu unrhyw endidau sy'n gysylltiedig â'r grŵp) ar delerau y bydd y Bwrdd yn pennu a byddwch yn ymgymryd â'r dyletswyddau ychwanegol hynny sy'n gymwys i rôl o'r fath fel sydd wedi ei nodi yn y Disgrifiad(au) Swydd sydd yn cael ei roi i chi o dro i dro.

3.6 Bydd disgwyl i chi:

3.6.1 gynnal a chydymffurfio â Chod Llywodraethol y Gymdeithas ar gyfer Aelodau Bwrdd ac unrhyw god ymddygiad eraill, safonau, cywirdeb a pholisïau tebyg eraill ynghyd â pholisïau a gweithdrefnau ar dâl, treuliau, taliadau eraill a buddion ar gyfer Aelodau Bwrdd a gaiff eu cymeradwyo gan y Bwrdd o dro i dro;

3.6.2 cynnal a chydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau a rheolau sefydlog y Gymdeithas fel sydd wedi eu nodi a'u newid o dro i dro gan y Bwrdd;

3.6.3 ymddwyn o fewn y Cyfansoddiad a chydymffurfio yn llawn gydag o ac unrhyw reolau sefydlog, awdurdodau dirprwyedig, cylch gorchwyl priodol a thelerau eich swydd ddisgrifiad;

3.6.4 cynnal a hybu polisïau, diben, gwerthoedd ac amcanion craidd y Gymdeithas (neu'r Grŵp ehangach) (gan gynnwys ein hymrwymiad i wrthlygredd a chyfleoedd cyfartal ac amrywiaeth) ac osgoi gwneud unrhyw beth a all ddwyn anfri ar y Gymdeithas (neu'r Grŵp ehangach).

3.6.5 cyfrannu a rhannu cyfrifoldeb am benderfyniadau'r Bwrdd a/neu unrhyw Bwyllgor y byddwch chi o dro i dro yn aelod ohono;

3.6.6 mynychu anwythiad, hyfforddiant a sesiynau adolygu perfformiad a sesiynau neu ddigwyddiadau tebyg fel sy'n ofynnol yn rhesymol gan y Gymdeithas;

3.6.7 cynnal gwerthusiad o'ch perfformiad fel y mae'n ofynnol gan y Bwrdd o dro i dro a gweithredu ar unrhyw weithrediadau sy'n codi o'r gwerthusiad hwnnw;

3.6.8 darllen papurau Bwrdd a/neu Bwyllgor (fel bo'n briodol) cyn cyfarfod a hynny yn ddigonol er mwyn cyfrannu at gyfarfodydd;

3.6.9 Hysbysu'r Ysgrifennydd Cwmni ar unwaith unrhyw gamweinyddiaeth ar eich rhan, neu gamweinyddiaeth neu gamweinyddiaeth bwriedig unrhyw Aelod Bwrdd neu gyflogai o'r Gymdeithas y byddwch yn ymwybodol ohonno;

3.6.10 cynrychioli'r Gymdeithas pan fydd gofyn; a

3.6.11 ymgymryd â dyletswyddau penodol sydd wedi eu rhestru yn Swydd Ddisgrifiad Aelodau Bwrdd gan dreulio amser priodol fel sydd wedi ei nodi yn Atodiad 1.

3.7 Os byddwch ar unrhyw dro yn ystod eich cyfnod fel Aelod Bwrdd yn cael eich penodi fel Cadeirydd, bydd disgwyl i chi hefyd gyflawni'r rôl a chyfrifoldebau ac arddangos rhinweddau sydd wedi eu nodi y Swydd Ddisgrifiad Cadeirydd y Bwrdd fel y caiff ei addasu gan y Bwrdd o dro i dro.

3.8 Mae'r Bwrdd yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau bod y sefydliad yn llwyddiannus a sicrhau ei gydymffurfiad gyda holl oblygiadau cyfreithiol a rheolaethol drwy gyfarwyddo a goruchwylio materion y Cymdeithasau. Hefyd, fel aelod Bwrdd, rhaid i chi sicrhau ar y cyd, fel bo'n briodol eich bod yn;

3.8.1 rhoi arweinyddiaeth i'r Gymdeithas;

3.8.2 gosod amcanion strategol y gymdeithas, sicrhau bod yr adnoddau ariannol a dynol mewn lle ar gyfer y Gymdeithas fel ei fod yn cwrdd â'i amcanion ac adolygu perfformiad rheolwyr;

3.8.3 gosod gwerthoedd a safonau'r Gymdeithas a sicrhau bod ei oblygiadau cyfreithiol a rheoleiddio yn cael eu deall a'u cwrdd; a

3.8.4 ac unrhyw ddyletswyddau eraill a all fod yn ofynnol yn rhesymol o dro i dro.

3.9 Bydd disgwyl i chi fynychu pob cyfarfodydd o'r:

3.9.1 Bwrdd;

3.9.2 pob Pwyllgor yr ydych yn aelod ohono, a

3.9.3 pob Bwrdd is-gwmni yr ydych yn aelod ohono,

3.9.4 pob diwrnod/gweithdy/digwyddiad Strategol y Bwrdd

3.9.5 pob hyfforddiant Bwrdd fel sydd wedi ei drefnu gan y Gymdeithas

Heblaw eich bod wedi eich atal rhan gwneud hyn o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf, y Cyfansoddiad, rheolau sefydlog perthnasol, Cod Llywodraethiant neu God Ymddygiad.

3.10 Bydd disgwyl i chi ymgyfarwyddo â phob mater sy'n berthnasol i waith a wneir gan y Bwrdd gan gynnwys unrhyw ddarpariaethau rheoleiddiol a statudol perthnasol.

3.11 Efallai cewch eich apwyntio neu eich ethol yn aelod o un neu fwy o Bwyllgorau neu Fyrddau is-gwmni ar delerau y bydd y Bwrdd yn pennu a byddwch yn ymgymryd â'r dyletswyddau ychwanegol hynny sy'n gymwys i rôl o'r fath fel sydd wedi ei nodi yn y Swydd Ddisgrifiad penodol sydd yn cael ei roi i chi o dro i dro.

4. Ffioedd

4.1 Yn ddarostyngedig i gymal 4.6, o'r 1af Gorffennaf 2019 byddwch yn cael ffi o £[swm] gros y flwyddyn i ymgymryd â'ch dyletswyddau fel [Aelod/Cadeirydd] [Bwrdd/Pwyllgor] a fydd yn cael ei dalu yn fisol ar ôl tynnu PAYE ac yswiriant gwladol Dosbarth 1 os yw'n berthnasol (y **Ffi**).

4.2 Bydd y Ffi yn cael ei adolygu o dro i dro gan y Gymdeithas ac mae'n daladwy bob amser yn ddarostyngedig i gydymffurfiaeth gan y Gymdeithas a gennych chi gydag unrhyw reoliadau neu arweiniad a gaiff ei gyhoeddi gan y Rheoleiddiwr neu unrhyw gorff rheoleiddio arall. Os bydd eich Swydd o fewn y Bwrdd yn newid, yna mae'r Gymdeithas yn dal yr hawl i newid y Ffi yn unol â hynny.

4.3 Bydd y Gymdeithas yn talu i chi unrhyw dreuliau sydd wedi eu creu yn rhesymol a chywir ac sydd wedi eu dogfennu yr ydych wedi eu creu wrth ymgymryd â'ch yletswyddau yn eich swydd yn ddarostyngedig i:

4.3.1 gydymffurfiaeth 'r Cyfansoddiad ac unrhyw bolisïau neu reolau sefydlog perthnasol, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, y Polisi Costau Teithio fel caiff eu newid o dro i dro

4.3.2 dyddyniadau lle mae angen eu tynnu yn ôl y gyfraith ac yn unol â pholisïau neu reolau sefydlog y Gymdeithas o dro i dro.

4.4 Rydych yn cytuno bod 12.7% o'r Ffi yn swm sy'n daladwy am unrhyw wyliau blynyddol a gymerir yn ystod yr un flwyddyn galendr lle caiff y Ffi ei dalu.

4.5 Efallai y byddwch yn dewis gwrthod y taliad neu roi'r ffi i elusen o'ch dewis a byddwch mewn achos felly yn gyfrifol am unrhyw dreth a cholli hawl i fudd-dal y wladwriaeth o ganlyniad i'ch penderfyniad. Mater i chi a'r awdurdodau perthnasol yw hyn.

4.6 Pan fyddwch, mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, wedi methu mynychu [llai na 80% o'r] cyfarfodydd yn unol â'r hyn gaiff ei ddiffinio yng nghymal 3.9 a/neu yn methu ag

ymgymryd yn gywir â'ch dyletswyddau o dan y Cytundeb hwn, bydd y ffi yn cael ei leihau o swm y bydd y Bwrdd yn ei bennu wrth ei lwyr ddisgresiwn a bydd lleihad o'r fath yn cael ei dynnu o unrhyw ffioedd sy'n ddyledus wedi hynny. Bydd methiant pellach yn golygu y byddwch yn torri'r Cytundeb hwn.

4.7 Rydych yn cydnabod ac yn cytuno bod adran 90 y Ddeddf Bensiynau 2008 yn berthnasol i'ch swydd fel Aelod Bwrdd y Gymdeithas ac felly nid ydych yn 'weithiwr' ar gyfer diben y Ddeddf Bensiynau 2008. Rydych yn cydnabod ac yn cytuno nad oes gennych hawl i fod yn rhan nac ymuno yn awtomatig mewn unrhyw gynllun pensiwn a gaiff ei gynnig gan y Gymdeithas o dro i dro.

4.8 Rydych yn cydnabod ac yn cytuno na fyddwch yn haeddiannol, o dan y Gytundeb hon, unrhyw daliad neu ffi ychwanegol:

4.8.1 am eich penodi neu ddal mwy nac un swydd i'r Gymdeithas ar y tro (e.e. bod yn Aelod Bwrdd ac Aelod Pwyllgor) ac/neu;

4.8.2 os cewch eich penodi yn Aelod o'r Bwrdd (neu'n gyfetholedig) i un o is-gwmniau'r Gymdeithas.

5. Diddordebau Allanol

5.1 Caiff ei dderbyn a'i gydnabod bod gennych ddiddordebau heblaw am rai'r Gymdeithas. Rydych yn cytuno eich bod wedi datgan unrhyw wir wrthdaro neu wrthdaro posib sy'n amlwg.

5.2 Rydych yn ymrwymo i ddatgan, cyn gynted ag y byddant yn dod i'r amlwg, pob un ac unrhyw ddiddordebau perthnasol, p'un ai yn rhai gwir neu bosib, yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol fel sy'n ofynnol gan y Cyfansoddiad, y Deddf Cwmnïau (os yn berthnasol), neu y Cod Ymddygiad, y Cod Llywodraethu, neu unrhyw godau ymddygiad perthnasol eraill neu safonau, cywirdeb neu debyg ar daliadau a buddion neu debyg cyn gynted ag y byddant yn dod i'r amlwg.

5.3 Rydych chi hefyd yn cytuno na fyddwch (heblaw am pan fydd y Cyfansoddiad yn caniatáu a gyda chaniatâd penderfyniad gan y bwrdd) yn cael eich cyflogi, bod yn rhan na chymryd diddordeb uniongyrchol neu anuniongyrchol neu yn dal swydd mewn unrhyw fusnes sy'n ymgymryd â gwasanaethau tebyg i rai'r Gymdeithas neu sy'n gwsmer neu gyflenwr gwasanaeth i'r Gymdeithas ac ni fydd y cymal 5.3 yma yn gymwys o ran eich aelodaeth o'r bwrdd rheoli nag unrhyw bwyllgor i Gwmni Perthynol.

6. Cyfrinachedd

6.1 Rydych yn cydnabod bod yr holl Wybodaeth Berthnasol yn gyfrinachol i'r Gymdeithas a ni ddylech ei ryddhau na'i ddatgelu i drydydd parti yn ystod eich penodiad nag ar ôl i'ch cyfnod ar y Bwrdd ddod i ben (trwy unrhyw ffordd) heb ganiatâd ymlaen llaw gan:

6.1.1 y Cadeirydd:

6.1.2 y Bwrdd (pan fyddwch yn cael eich penodi fel Cadeirydd neu yn ymgymryd â rôl y Cadeirydd pan fyddwch yn bwriadu rhyddhau'r Wybodaeth Berthnasol): neu

6.1.3 Ysgrifennydd y Cwmni,

neu fel caiff ei ganiatáu gan gymal 6.2 y Cytundeb hwn, cyn belled â'ch bod yn cydymffurfio a bob achos yng nghymal 6.3.

6.2 Gallwch ddatgan Gwybodaeth Berthnasol:

6.2.1 i'r graddau lle mae'n ofynnol i chi wneud yn gyfreithiol neu drwy orchymyn llys, cyn belled â'ch bod yn defnyddio pob ffordd resymol i roi rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw i'r Gymdeithas o unrhyw ddatgeliad o'r fath ac yn cyfyngu datgeliad o'r fath i'r hyn sy'n ofynnol yn gyfreithiol; neu

6.2.2 lle mae'r Wybodaeth Berthnasol wedi (neu oherwydd eich tor chi) wedi dod ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol,

cyn belled â'ch bob ym mhob achos yn cydymffurfio â chymal 6.3.

6.3 Rydych yn ymgymryd i sicrhau bod pawb lle caiff y Wybodaeth Berthnasol ei ddatgelu yn unol â chymal 6.1 a 6.2:

6.3.1 yn gwybod am natur gyfrinachol y Wybodaeth Berthnasol;

6.3.2 yn cadw at delerau'r Cytundeb hwn fel petai ef neu hi yn rhan o'r Cytundeb hwn; a

6.3.3 os bydd y Gymdeithas yn gofyn, ymgymryd â chytundeb ysgrifenedig yn debyg i'r rhai sydd yn y Cytundeb hwn.

ac rydych yn cydnabod y byddwch yn gyfrifol am unrhyw dor o delerau'r Cytundeb hwn gan unrhyw berson lle caiff Gwybodaeth Berthnasol ei ddatgelu fel caiff ei ganiatáu gan gymal 6.1 a 6.2.

6.4 Rydych yn cydnabod yr angen i gynnal a chadw, ac yn y pendraw waredu, Gwybodaeth Berthnasol drwy amodau diogel cywir ac yn unol â pholisïau'r Gymdeithas o dro i dro, ac rydych yn cytuno i beidio â thynnu neu ganiatáu eraill i dynnu, unrhyw Wybodaeth Berthnasol o eiddo'r Gymdeithas heblaw pan fydd wirionedd angen am hynny ar gyfer ymgymryd â'ch dyletswyddau yn gywir fel Aelod Bwrdd.

6.5 Rydych yn cydnabod bod y Wybodaeth Berthnasol ac y bydd y Wybodaeth Berthnasol yn parhau i fod yn eiddo i'r Gymdeithas a rhaid iddo gael ei roi i'r Gymdeithas mor fuan ag sy'n ymarferol bosib pan ofynnir amdano.

6.6 Rydych yn ymgymryd i:

6.6.1 beidio â defnyddio'r Wybodaeth Berthnasol ar gyfer unrhyw ddiben heblaw ar gyfer cyflawni eich dyletswyddau fel Aelod Bwrdd;

6.6.2 beidio â chael neu geisio a chael unrhyw fantais ariannol (uniongyrchol neu anuniongyrchol) o ddatgelu Gwybodaeth Berthnasol, a

6.6.3 beidio â gwneud a defnyddio Copïau heblaw am gopïau wedi eu cael gyda chaniatâd ymlaen llaw gan y Cadeirydd neu'r Bwrdd mewn achos pan fyddant yn cael eu penodi neu eu bod yn cymryd swydd y Cadeirydd neu Ysgrifennydd y Cwmni.

6.7 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd y cymal 6 yma yn parhau i fod mewn grym yn dilyn dod a'r Cytundeb yma i ben am ba bynnag reswm.

7. Proses Arfarnu

7.1 Bydd eich perfformiad fel Aelod Bwrdd unigol a pherfformiad y Bwrdd yn ei gyfanrwydd a'i Bwyllgorau yn cael ei arfarnu'n flynyddol. Mae gofyn i chi fynychu a chymryd rhan ym mhob arfarniad ac adolygiad sy'n ymwneud a'ch perfformiad unigol fel Aelod Bwrdd a pherfformiad y Bwrdd yn ei gyfanrwydd.

7.2 Os bydd unrhyw faterion yn codi sy'n achosi pryder i chi am eich rôl, dylech eu trafod gyda Chadeirydd y Gymdeithas cyn gynted ag sy'n berthnasol. Os cewch eich penodi fel Cadeirydd y Gymdeithas neu yn cymryd lle'r Cadeirydd yna dylech drafod unrhyw bryderon o'r fath gydag Ysgrifennydd y Cwmni.

8. Adnewyddu cyfnod mewn swydd

Efallai y bydd eich penodiad fel Aelod Bwrdd yn cael ei adnewyddu hyd at dair blynedd gan y Gymdeithas,

cyn belled â'i fod yn cael ei ganiatáu gan y Cyfansoddiad a Chod Llywodraethol y Gymdeithas.

9. Terfynu

9.1 Bydd eich penodiad, a'r Cytundeb yma (gan gynnwys, heb gyfyngiad, eich penodiad i unrhyw swydd neu bwyllgor penodol) yn dod i ben heb unrhyw hawl i gael iawndal os:

9.1.1 rydych wedi eich hanghymhwyso rhag gweithredu fel Cyfarwyddwr Cwmni am unrhyw reswm; neu

9.1.2 rydych wedi eich hanghymhwyso rhag gweithredu fel ymddiriedolwr elusen am unrhyw reswm; neu

9.1.3 rydych wedi eich cael yn euog o drosedd ditiol sydd ddim, neu all ddim gael ei dreulio; neu

9.1.4 ydych yn destun cytundeb â chredydwyr; neu

9.1.5 nad ydych yn Gyfranddaliwr (oni bai eu bod yn aelod cyfetholedig); neu

9.1.6 ydych yn absennol o dri chyfarfod olynol o'r Bwrdd neu Bwyllgor heb gael caniatâd arbennig i fod yn absennol; neu

9.1.7 yw ymarferydd meddygol cofrestredig yn cyflwyno barn ysgrifenedig yn datgan bod yr unigolyn yn analluog yn gorfforol neu'n fyddyliol i weithredu fel aelod o'r Bwrdd, ac all aros felly am gyfnod o fwy na thri mis; neu

9.1.8 eich bod wedi bod yn absennol o (dri) cyfarfod Bwrdd ar y tro, heb ganiatâd arbennig o'r absennoldeb neu heb eglurhad rhesymol; neu

9.1.9 eich bod yn denant ac wedi torri eu cytundeb tenantiaeth neu brydles mewn modd perthnasol neu ddifrifol, ac yn methu ag unioni'r tor-cytundeb neu brydles mewn cyfnod rhesymol fel a gytunwyd â'r Gymdeithas; neu

9.1.10 eich bod wedi eu hethol yn benodol fel Tenant Aelod o'r Bwrdd a'u bod yn peidio â bod yn breswylydd; neu

9.1.11 bod [y Bwrdd]/[Cadeirydd] yn eich hysbysu ei fod/bod yn ystyried bod yna dan-berfformiad materol ar unrhyw adeg yn eich perfformiad yn gweithredu'r cyfrifoldebau o dan y Gytundeb hon, neu eich bod wedi torri amodau y Gytundeb (sy'n cynnwys, ond dim yn gyfyngedig i gymal 3 o'r Gytundeb hon) neu y Cod Llywodraethiant neu Cod Ymddygiad; neu

9.1.12 eich bod yn peidio â bod yn Aelod Bwrdd an unrhyw reswm gan gynnwys gan reswm ohonnoch yn gadael swyddogaeth (neu pan dybir eich bod wedi gadael eich swyddogaeth o dan y Cyfansoddiad) neu fel arall yn unol âg unrhyw ddarpariaeth o'r Cyfansoddiad).

9.2 Bydd defnydd cywir y Gymdeithas o'r hawl i derfynu o dan gymal 9 yn cael ei wneud heb ragfarn i unrhyw hawliau neu ateb arall lle mae gan y Gymdeithas hawl i'w rhoi ar waith yn eich erbyn.

9.3 Pan fydd y Cytundeb hwn yn dod i ben, ni fydd gennych hawl i daliad ar gyfer unrhyw ran o'r ffi sydd heb ei dalu wrth derfynu heblaw bod y Cadeirydd, wrth ei l/llwyr ddisgresiwn, yn pennu eich bod yn cael eich talu'r holl ffi neu ran ohono.

10. Sefyllfa ar derfynu

10.1 Rydych yn cydnabod pan fydd eich penodiad yn dod i ben am unrhyw reswm a thrwy ba bynnag ffordd byddwch, heb unrhyw hawl neu yn hawlio am iawn-dal:

10.1.1 ar gais y Gymdeithas, ymddiswyddo yn syth o bob swydd yr ydych yn dal yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn, gan gynnwys unrhyw swydd mewn Cwmni Perthynol;

10.1.2 os ydych yn parhau i fod yn gyfranddaliwr ar gais y Gymdeithas, ildio ac ymgymryd â phob cam gofynnol i drosglwyddo perchnogaeth unrhyw gyfranddaliad i'r Gymdeithas a/neu unrhyw Gwmni Perthynol; a

10.1.3 ddim yn cynrychioli eich hun eich bod yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd a'r Gymdeithas nag unrhyw un o'i Gwmnïau Perthynol.

10.2 Mewn achos pan nad ydych wedi llwyddo i gydymffurfio â chymal 10.1.2 uchod, rydych yn awdurdodi yn ddi-alw'n ôl bod Ysgrifennydd y Cwmni yn penodi rhywun yn eich enw ac ar eich rhan i arwyddo a chyflawni diswyddiad o'r fath neu ildiad neu drosglwyddiadau (fel y mae'r achos) i'r Gymdeithas ac i bob un o gwmnïau Perthnasol lle rydych chi yn swyddog ar y pryd neu (fel yn yr achos) yn gyfranddaliwr.

10.3 Wrth derfynu eich penodiad am unrhyw reswm a thrwy ba bynnag ffordd, neu ar unrhyw adeg ar gais y Bwrdd, byddwch yn:

10.3.1 dychwelyd yr Holl Wybodaeth Berthnasol i'r Gymdeithas ac eiddo eraill sy'n berchen i'r Gymdeithas neu i unrhyw Gwmni Perthynol a all fod yn eich meddiant neu o dan eich rheolaeth, a (er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth) ni fyddwch yn cadw unrhyw Gopïau; a

10.3.2 dileu, heb adfer, unrhyw Wybodaeth Berthnasol sydd wedi ei storio ar unrhyw ddisg magnetig neu optical gan gynnwys rhwydweithiau cyfrifiadur personol, cyfrifon e-bost personol neu gyfrifon personol ar wefannau a phob mater sy'n deillio o ffynonellau o'r fath sydd yn eich meddiant neu o dan eich rheolaeth tu allan i eiddo'r Gymdeithas, a (er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth) ni fyddwch yn cadw Copïau ohonynt.

10.4 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd y cymal 10 yma yn parhau i fod mewn grym yn dilyn dod a'r Cytundeb yma i ben am ba bynnag reswm.

11. Statws

11.1 Caiff ei gytuno a'i gydnabod rhwng y partïon:

11.1.1 byddwch yn aelod ac yn parhau i fod yn aelod o'r Bwrdd yn ystod eich penodiad ac nid oes unrhyw beth yn y Cytundeb hwn a fydd yn dehongli neu yn cael effaith ar unrhyw berthynas gweithiwr a gweithiwr rhwng y Gymdeithas a chi; a

11.1.2 does yna neb sy'n gweithio i'r Gymdeithas sydd â swydd llawn amser cyffelyb.

11.2 Ni ddylid dehongli'r Cytundeb hwn er mwyn creu partneriaeth neu fenter ar y cyd rhwng partïon. Ni ddylid dehongli dim yn y Cytundeb hwn fel bod unrhyw barti yn dod yn asiant i barti arall neu asiant o unrhyw drydydd parti.

12. Cyffredinol

12.1 Mae'r Cytundeb hwn ac unrhyw ddogfennau a gyfeirir atynt ynddo yn cynnwys ac yn gosod allan y cytundeb cyfan a dealltwriaeth partïon ac mae'n gorchfygu pob cytundeb, dealltwriaeth neu drefniadau llafar ac ysgrifenedig blaenorol sy'n ymwneud â'r Cytundeb yma. Nid oes gan unrhyw barti'r hawl i ddibynnu ar unrhyw gytundeb, dealltwriaeth neu drefniant sydd heb ei nodi yn y cytundeb hwn cyn belled ac nad oes dim yn y cymal yma a all effaith ar y ffaith bod eich penodiad yn ddarostyngedig i'r Cyfansoddiad ac ni fydd unrhyw beth yn y Cytundeb yn cael ei gymryd i eithrio neu amrywio telerau'r Cyfansoddiad fel ac y maent yn briodol i chi fel Aelod Bwrdd.

12.2 Ni fydd y Cytundeb hwn yn cael ei newid, addasu, amrywio neu ei ychwanegu ato heblaw bod hynny wedi ei gytuno ymlaen llaw yn ysgrifenedig ac wedi ei arwyddo gan y partïon.

12.3 Ni fydd unrhyw fethiant neu oedi ar ran y naill barti neu'r llall i arfer unrhyw hawl neu ddatrysiad o dan y Cytundeb hwn yn cael ei ddehongli neu ei weithredu fel hepgoriad nac unrhyw arferiad unigol neu rannol o unrhyw hawl neu ddatrysiad fel gall yr achos fod. Mae'r hawliau a datrysiadau yn y Cytundeb hwn yn rhai cronnus ac nid ydynt wedi eu heithrio ar gyfer unrhyw hawl neu ddatrysiad a roddir gan Gyfraith.

12.4 Nid yw Deddf Cytundebau (Hawliau Trydydd Parti) 1999 yn gymwys ar gyfer y Cytundeb hwn. Nid oes gan unrhyw berson arall heblaw amdanoch chi a'r Gymdeithas hawliau o dan y Cytundeb hwn ac nid fydd telerau'r Cytundeb yn rhai a ellir eu gorfodi gan unrhyw berson heblaw amdanoch chi a'r Gymdeithas.

12.5 Ac eithrio fel y darperir fel arall yn y Cytundeb hwn, ni chaiff unrhyw barti aseinio, is-gontractio na delio mewn unrhyw ffordd; unrhyw un o'i hawliau neu rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn neu unrhyw ddogfen y cyfeirir ati ynddi, ac eithrio y gall y Gymdeithas neilltuo ei hawliau i unrhyw Gwmni Cysylltiedig ar rybudd ysgrifenedig ymlaen llaw i chi.

12.6 Rydych yn cydnabod na fyddai iawndal ei hun yn ddatrysiad digonol ar gyfer torri unrhyw un o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn. Yn unol â hynny, heb ragfarn tuag at unrhyw hawliau a datrysiadau sydd ganddo, mae gan y Gymdeithas hawl i roi rhyddhad ecwitïol (gan gynnwys rhyddhad gorfodebol heb gyfyngiad) am unrhyw dor a gaiff ei amau neu wir dor o unrhyw ddarpariaethau yn y Cytundeb hwn.

12.7 Mae'r Cytundeb yn gosod telerau'r datganiad o oblygiadau fel sy'n ofynnol gan y Bwrdd Unwaith y mae wedi ei draddodi gan y ddau barti, bydd yn creu cytundeb ysgrifenedig gennych y byddwch yn cwrdd â'ch goblygiadau i'r Bwrdd a'r Gymdeithas fel sy'n ofynnol gan Reolau'r Gymdeithas; y Rheolau Sefydlog; Cod Ymddygiad Aelodau'r Bwrdd ac unrhyw ddogfennau perthynol.

13. Yswiriant

13.1 Mae gan y Gymdeithas yswiriant ar waith ar gyfer atebolrwydd cyfarwyddwyr a swyddogion. Y bwriad yw cynnal sicrwydd o'r fath ar gyfer telerau llawn eich penodiad; mae copi o'r ddogfen bolisi ar gael ar gais gan y Gymdeithas.

14. Diogelu Data

14.1 Drwy lofnodi'r Cytundeb hwn rydych yn rhoi caniatâd i'r Gymdeithas gasglu, prosesu, a throsglwyddo data amdanoch chi at ddibenion cyfreithiol, personél, gweinyddol a rheoli ac yn arbennig i brosesu unrhyw ddata personol nodweddion arbennig sy'n berthnasol i chi. Bydd gwybodaeth o'r fath yn cael ei phrosesu yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), â'r Ddeddf Gwarchod Data 2018.

14.2 Rydych yn cydsynio i'r Gymdeithas sicrhau bod gwybodaeth o'r fath ar gael i unrhyw un o'i Chwmnïau Cysylltiedig, y rheini sy'n darparu cynhyrchion neu wasanaethau i'r Gymdeithas (neu i unrhyw Gwmnïau Cysylltiedig), awdurdodau rheoleiddio, darpar gyflogwyr neu gyflogwyr yn y dyfodol, sefydliadau a photensial llywodraethol neu led-lywodraeth partneriaid uno'r Gymdeithas, ac fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

14.3 Bydd y Gymdeithas yn cydymffurfio â Pholisi Gwarchod Data a Chyfrinachedd y Gymdeithas, y mae copi ohono ar gael gan Ysgrifennydd y Cwmni.

14.4 Gall y Cwmni newid ei Bolisi Gwarchod Data a Chyfrinachedd ar unrhyw adeg a bydd yn eich hysbysu'n ysgrifenedig am unrhyw newidiadau.

14.5 O dan GDPR, mae gennych yr hawl i dynnu'n ôl y caniatâd a roddir mewn perthynas â'r Gymdeithas wrth gasglu, prosesu a throsglwyddo eich gwybodaeth bersonol ar unrhyw adeg.

15. Hysbysiadau

15.1 Bydd unrhyw hysbysiad sydd i'w roi yn ysgrifenedig ac yn cael ei roi'n ddigonol:

15.1.1 yn eich achos chi trwy gael ei gyflwyno naill ai'n bersonol i chi neu ei anfon drwy'r cyfeiriad post cofrestredig wedi'i gyfeirio atoch yn eich cartref arferol neu'ch man preswyl diwethaf; neu

15.1.2 yn achos y Gymdeithas trwy gael ei gyflwyno yn y post cofrestredig neu ei anfon drwy'r post cofrestredig neu ddanfoniad wedi'i recordio wedi'i gyfeirio at ei swyddfa gofrestredig wedi'i farcio at sylw Ysgrifennydd y Cwmni

15.2 Bydd unrhyw rybudd o'r fath, os caiff ei bostio, wedi'i gyflwyno ar yr ail ddiwrnod yn dilyn yr un y cafodd ei bostio.

15.3 Byddwch yn rhoi gwybod yn brydlon i Ysgrifennydd y Cwmni am unrhyw newid yn eich cyfeiriad neu fanylion cyswllt personol eraill.

15.4 Rydych yn cytuno, ar gais y Gymdeithas, y byddwch, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a beth bynnag o fewn 28 diwrnod ar ôl y cais, yn rhoi manylion unrhyw wybodaeth y gofynnwyd amdani gan y Gymdeithas i'w galluogi i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Gwybodaeth Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau) 2017.

16. Datganiad

16.1 Drwy lofnodi'r ddogfen hon rydych yn cytuno ac yn datgan nad ydych yn ymwybodol o unrhyw resymau a fyddai'n neu a fyddai'n debygol o wneud i chi fod yn anghymwys i wasanaethu fel Aelod Bwrdd o'r Gymdeithas ac yn benodol:

16.1.1 nad ydych yn fethdalwr heb ei ryddhau nac yn ddarostyngedig i unrhyw gyfansoddiadau neu drefniadau heb eu rhyddhau gyda'ch credydwyr;

16.1.2 nad ydych wedi'ch anghymhwyso am unrhyw reswm rhag gweithredu fel cyfarwyddwr cwmni neu ymddiriedolwr elusen neu swyddog darparwr tai cymdeithasol cofrestredig;

16.1.3 na chawsoch eich dyfarnu'n euog o unrhyw drosedd ditiadwy, oni bai bod y gollfarn yn gyfreithiol;

16.1.4 na chawsoch eich dyfarnu'n euog o unrhyw drosedd a fyddai'n debygol o ddwyn anfri ar y Gymdeithas neu a allai fod yn anghydnaws â swydd Aelod o'r Bwrdd;

16.1. 5 nad ydych wedi eich darganfod yn euog o drosedd sy'n ymwneud â thwyll neu anonestrwydd heblaw bod cyfnod yr euogfarn wedi mynd heibio;

16.1.6 nad ydych wedi'ch tynnu oddi wrth wasanaethu fel ymddiriedolwr elusen, neu gyfarwyddwr cwmni, neu aelod o fwrdd cymdeithas gofrestredig, neu wedi'ch stopio rhag gweithredu mewn swydd reoli o fewn elusen;

16.1.7 nad ydych mewn anghydfod gyda'r Gymdeithas neu unrhyw un o'i Chwmnïau Cysylltiedig, nac yn torri unrhyw gytundeb gyda'r Gymdeithas neu unrhyw un o'i Chwmnïau Cysylltiedig;

16.1.8 nad ydych yn anghymwys am unrhyw reswm i fod yn Aelod Bwrdd o'r Gymdeithas yn unol â'r Cyfansoddiad; a

16.1.9 eich bod wedi gwneud datganiad llawn i'r Gymdeithas o unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl sy'n effeithio arnoch chi, aelodau o'ch teulu a busnesau neu sefydliadau eraill yr ydych yn gysylltiedig â hwy.

17. Y gyfraith ac awdurdodaeth

17.1 Bydd telerau'r Cytundeb hwn yn cael ei lywodraethu gan Gyfreithiau Cymru a Lloegr fel bo'n berthnasol ac mae'r partïon yn cytuno i gyflwyno'r awdurdodiad perthnasol mewn achos o anghydfod.

18. Diffiniadau

Caiff ei gytuno fel â ganlyn:

Mae **Cwmni Cysylltiedig** yn golygu unrhyw gwmni, cymdeithas gofrestredig, partneriaeth, neu endid arall, sy'n cael ei reoli'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Gymdeithas, neu sy'n ei rheoli'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol neu y mae gan y Gymdeithas fudd o unrhyw fath mewn perthynas â hi lle rydych efallai wedi cael eich enwebu neu'ch penodi gan y Gymdeithas.

Bydd **Cwmnïau Cysylltiedig** yn cael eu dehongli yn unol â hynny;

Mae'r **Bwrdd** yn golygu bwrdd cyfarwyddwyr y Gymdeithas;

Mae **Aelod Bwrdd** yn golygu aelodau'r Bwrdd;

Mae **CCBSA** yn golygu 'Co-operative and Community Benefit Societies Act 2014;

Mae **Cadeirydd** yn golygu Cadeirydd y Bwrdd;

Mae **Cod Ymddygiad** yn golygu unrhyw god neu godau ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Bwrdd fel y'u mabwysiadwyd gan y Gymdeithas o bryd i'w gilydd;

Mae **Cod Llywodraethu** yn golygu unrhyw god neu godau llywodraethu a fabwysiadwyd gan y Gymdeithas o bryd i'w gilydd;

Mae **Pwyllgor** yn golygu unrhyw bwyllgor o'r Gymdeithas y gellir penodi Aelod o'r Bwrdd iddo yn unol â'r Cyfansoddiad a'r Cod Ymddygiad. Dehonglir pwyllgorau yn unol â hynny;

Mae **Ysgrifennydd y Cwmni** yn golygu ysgrifennydd y Gymdeithas o bryd i'w gilydd;

Mae **Deddf Cwmnïau** yn cyfeirio at yr hyn a olygir o fewn adran 2 o'r Deddf Cwmnïau 2006;

Mae **Cyfansoddiad** yn golygu'r rheolau'r Gymdeithas neu offeryn llywodraethu arall (yn ôl fel y digwydd) sy'n llywodraethu'r Gymdeithas fel y'i mabwysiadwyd ac a ddiwygiwyd o bryd i'w gilydd;

Mae **copïau'n** golygu unrhyw gopïau neu gofnodion o unrhyw Wybodaeth Berthnasol (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i lungopïau, sganiau, dyfyniadau, dadansoddiadau, astudiaethau, cynlluniau, cyweithiau, neu unrhyw ffordd arall o gynrychioli neu gofnodi ac adalw gwybodaeth sy'n cynnwys, yn adlewyrchu neu'n deillio neu a gynhyrchir o Wybodaeth Berthnasol);

Mae **Ffi** yn golygu y ffi sy'n cael ei disgrifio fel sydd wedi ei ddiffinio yn 4.1;

Mae **Rheoleiddiwr** yn golygu Llywodraeth Cymru yn gweithredu trwy bwerau a roddwyd yn Rhan 1 o Ddeddf Tai 1996, neu unrhyw awdurdod tebyg yn y dyfodol (gan gynnwys unrhyw olynydd statudol) sy'n parhau'r un swyddogaethau rheoleiddio neu oruchwylio yn sylweddol;

Mae **Gwybodaeth Berthnasol** yn golygu'r holl wybodaeth a gawsoch mewn cysylltiad â'ch swydd fel Aelod Bwrdd (a / neu mewn cysylltiad â'ch cais i ddod, ac / neu broses eich apwyntiad fel Aelod Bwrdd), ym mha bynnag ffurf (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ffurf ysgrifenedig, llafar, gweledol neu electronig neu ar unrhyw ddisg neu gof magnetig neu optegol) a chan gynnwys unrhyw Gopïau, a lle bynnag y'u lleolir ac a yw gwybodaeth o'r fath (mewn unrhyw beth ar wahân i ffurflen lafar) wedi'i farcio'n gyfrinachol, ond heb fod yn gyfyngedig i:

(a) unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â busnes y Gymdeithas neu ei Chwmnïau Cysylltiedig (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i wybodaeth ariannol, contractau a thargedau presennol a darpar, cynlluniau a strategaeth marchnata, cynlluniau busnes neu adroddiadau, rhaglenni busnes neu bolisïau a systemau busnes),

(b) unrhyw wybodaeth yr ydych chi, gan weithredu'n rhesymol, yn disgwyl i'r Gymdeithas neu ei Chwmnïau Cysylltiedig ei hystyried yn gyfrinachol, a

(c) unrhyw wybodaeth y mae'r Gymdeithas neu ei Chwmnïau Cysylltiedig yn ei labelu fel, neu'n rhoi gwybod i chi, sy'n gyfrinachol;

Mae **Proffil Rôl** yn golygu unrhyw broffil rôl, disgrifiad rôl/swydd, datganiad cymwyseddau neu ddogfen debyg a gyhoeddir i chi gan y Gymdeithas o bryd i'w gilydd.

Mae **Llywodraeth Cymru** yn golygu'r corff a sefydlwyd o dan adran 45 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006); Ystyrir mai "Gweinidogion Cymru" yw Gweinidogion Cymru a benodir o dan adran 48 o Ddeddf 2006. O dan Rhan 1 Deddf Tai 1996, mae Gweinidogion Cymru yn cofrestru ac yn rheoleiddio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Mae'r Tîm Rheoleiddio Tai yn rheoleiddio ar ran Gweinidogion Cymru.

Mae **is-gwmni** yn golygu is-gwmni o'r Gymdeithas, ac yn y cyd-destun yma, yn golygu yr hyn caiff ei gyfeirio ato fel "is-gwmni" yn adrannau 100 a 101 o'r CCBSA.

Gweithred Cytundeb

Wedi ei arwyddo fel gweithred

[ENW])……

Ym mhresenoldeb

Llofnod Tyst)……

Enw

Cyfeiriad

Swydd

Arwyddwyd fel gweithred gan **Grŵp Cynefin**

Gan Dafydd Lewis, Cadeirydd

A Shan Lloyd Williams, Ysgrifennydd y Cwmni

Cadeirydd)……

Ysgrifennydd y Cwmni)……

Gweithred Cytundeb

Dyddiedig y o'r 2019

Atodiad: Swydd Ddisgrifiad Aelod o'r Bwrdd